

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU  
(Arolygiadau Safle)**

**12 Ebrill 2021**

Yn bresennol: Cyngorydd R Owens (Cadeirydd)

Cyngorydd Mrs D Clements, Cyngorydd P Harries, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cyngorydd M James, Cyngorydd P Kidney, Cyngorydd M Williams a'r Cyngorydd S Yelland.

(Arolwg Safle: 9.30 a.m. – 11.10 a.m)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd P Baker, Cyngorydd K Doolin, Cyngorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Mr GA Jones Cyngorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer a Cyngorydd A Wilcox.

**2. NP/21/0137/FUL – Tynnu strwythur pren, gosod cabanau gwyliau, porthdy croeso, strwythurau canolbwynt cymunedol, parc bygi a lloches a maes parcio gwesteion, gyda seilwaith cysylltiedig gan gynnwys ffyrdd cylchrediad mewnol, tirlunio caled a meddal, seilwaith draenio, waliau cynnal a byndiau daear. - Bluestone National Park Resort, Coedwigoedd Canaston, Narbeth, Sir Benfro, SA67 8DE**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr arolwg safle y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngi â safle'r cais a'r ardal gyfagos. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i ystyried yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 pan gafodd y cais ei ohirio er mwyn cynnal arolwg safle.

Aeth yr Aelodau rhagddynt i gael golwg ar y safle a'r ardal gyfagos.

